# Datganiad Hygyrchedd Awtistiaeth Cymru

Mae'r datganiad hygyrchedd hwn yn berthnasol i wasanaethau a gwybodaeth ar-lein yn https://autismwales.org

## Defnyddio'r wefan hon

Y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol sy'n rhedeg y wefan hon. Rydym am weld cymaint o bobl â phosib yn defnyddio'r wefan hon. Er enghraifft, mae hynny'n golygu y dylech allu gwneud y canlynol:

- newid lliwiau, lefelau cyferbynnedd a ffontiau
- nesáu hyd at 300% heb i'r testun orlifo oddi ar y sgrin
- gwe-lywio'r rhan fwyaf o'r wefan gan ddefnyddio bysellfwrdd yn unig
- gwe-lywio'r rhan fwyaf o'r wefan gan ddefnyddio meddalwedd adnabod llais
- gwrando ar y rhan fwyaf o'r wefan gan ddefnyddio rhaglen darllen sgrin (gan gynnwys y fersiynau diweddaraf o JAWS, NVDA a VoiceOver)

Rydym hefyd wedi sicrhau bod testun y wefan mor syml â phosib i'w ddeall.

Mae cyngor gan AbilityNet ynghylch gwneud eich dyfais yn haws i'w defnyddio os oes gennych chi anabledd.

## Hygyrchedd y wefan hon

Rydym yn gwybod nad yw pob rhan o'r wefan hon yn gwbl hygyrch:

- ni wnaiff y testun ail-lifo mewn colofn sengl wrth newid maint ffenestr y porwr
- nid oes modd addasu uchder llinell neu fwlch rhwng testun
- nid yw'r rhan fwyaf o ddogfennau PDF hŷn yn gwbl hygyrch i feddalwedd darllen sgrin
- mae'n anodd gwe-lywio rhai o'n ffurflenni ar-lein gan ddefnyddio bysellfwrdd yn unig
- nid oes modd neidio i'r prif gynnwys wrth ddefnyddio rhaglen darllen sgrin

## Adborth a gwybodaeth gyswllt

Os ydych chi angen yr wybodaeth sydd ar y wefan hon ar ffurf arall fel PDF hygyrch, print bras, hawdd ei ddeall, recordiad sain neu braille:

E-bostiwch: AwtistiaethCymru@wlga.gov.uk

Ffoniwch: 029 2046 8675

Byddwn yn ystyried eich cais ac yn dod yn ôl atoch cyn pen 5 diwrnod.

Os nad ydych yn gallu gweld y map ar ein tudalen 'Fy Nghysylltiadau Lleol', anfonwch e-bost atom neu codwch y ffôn i gael cyfarwyddiadau.

## Rhoi gwybod am broblemau hygyrchedd â'r wefan hon

Rydym ni bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella hygyrchedd y wefan hon. Os cewch chi broblem sydd heb ei rhestru ar y dudalen hon neu os ydych chi'n teimlo nad ydym yn cwrdd â gofynion y rheoliadau hygyrchedd, cysylltwch â: AwtistiaethCymru@wlga.gov.uk

## Gweithdrefn gorfod

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) sy'n gyfrifol am orfodi Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau Symudol) (Rhif 2) 2018 (y 'rheoliadau hygyrchedd'). Os ydych yn anhapus â'r ffordd rydym yn ymateb i'ch cwyn, cysylltwch â'r Equality Advisory and Support Service (EASS).

## Gwybodaeth dechnegol am hygyrchedd y wefan hon

Mae'r Tîm Awtistiaeth wedi ymrwymo i wneud ei wefan yn hygyrch, yn unol â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau Symudol) (Rhif 2) 2018.

### Statws Cydymffurfio

Mae'r wefan hon yn cydymffurfio'n rhannol gyda safon AA Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwefannau fersiwn 2.1, oherwydd y diffyg cydymffurfio a restrir isod.

## Cynnwys anhygyrch

### Problemau â delweddau, fideos a sain

Does gan y ddelwedd gefndir ar y dudalen gartref (baner) ddim testun amgen.

Rydym ni'n bwriadu ychwanegu testun amgen ar ddelweddau yn yr hafan erbyn mis Rhagfyr 2020. Dydyn ni ddim yn bwriadu ychwanegu penawdau at ffrydiau fideo byw gan fod fideo byw wedi'i eithrio rhag diwallu'r rheoliadau hygyrchedd.

### Problemau ag elfennau rhyngweithiol a thrafodion

Ni fydd llyfrau comig a straeon rhyngweithiol Archarwyr Awtistiaeth yn diwallu'r canllawiau hygyrchedd gan y byddai hyn yn cael ei ystyried yn 'faich anghymesur'.

Mae ein ffurflenni yn cael eu creu a'u cynnal drwy feddalwedd trydydd parti ac fe ddefnyddir 'gwisg' er mwyn iddynt edrych fel ein gwefan. Rydym ni'n bwriadu gweithio gyda'n cyflenwr i drwsio'r broblem â chyferbynnedd lliw erbyn mis Tachwedd 2020.

## Problemau â PDFs a dogfennau eraill

Dydi nifer o'n dogfennau PDF a Word hŷn ddim yn diwallu safonau hygyrchedd, byddai'r rhain yn ddogfennau hanesyddol neu wedi'u darparu gan drydydd parti - er enghraifft, efallai nad ydynt wedi'u marcio fel eu bod yn hygyrch i raglen darllen sgrin. Credwn y byddai hyn yn 'faich anghymesur'.

Mae rhai o'n dogfennau PDF a Word yn hanfodol er mwyn darparu ein gwasanaethau. Erbyn mis Rhagfyr 2020, rydym yn bwriadu trwsio'r rhain neu roi tudalennau HTML hygyrch yn eu lle.

Bydd unrhyw ddogfennau PDF neu Word newydd rydym yn eu cyhoeddi yn diwallu safonau hygyrchedd.

## Paratoi'r datganiad hygyrchedd hwn

Paratowyd y datganiad hwn ar 12 Medi 2020.Fe'i diweddarwyd ddiwethaf ar 17 Medi 2020.

Profwyd y wefan hon ddiwethaf ar 28 Medi 2020. Gwnaed y prawf gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, Oxygen Agency Ltd a'n Grŵp Profi Derbynioldeb Defnyddwyr Budd-ddeiliaid.

Profodd y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yr holl dudalennau ar draws y wefan a phrofodd y Grŵp UAT sampl o dudalennau gan ystyried mai gwefan newydd ei datblygu yw hon.

Fe brofom ein prif lwyfan gwefan, ar gael yn https://autismwales.org/ a https://awtistiaethcymru.org

## Beth ydym ni'n ei wneud i wella hygyrchedd

Dyma sut rydym yn bwriadu gwella hygyrchedd y wefan hon:

- Bydd fersiynau 'hawdd i'w darllen' o adnoddau ar gael ar y wefan newydd, y byddwn yn eu datblygu gydag Anabledd Dysgu Cymru.
- Bydd 'Parth Plant a Phobl Ifanc' newydd yn nodwedd ar y wefan: yn hidlo hygyrchedd yn seiliedig ar wybodaeth sy'n briodol i oedran.